**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jayne Bryant, AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN

13 Medi 2023

Annwyl Jayne,

Mae'n bleser gennyf roi ateb ysgrifenedig i'r Pwyllgor i gwestiwn 6 yn eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf.

Roedd cwestiwn y Pwyllgor yn ymwneud ag argymhelliad 6 ar ddata: *Mewn perthynas â'r data na chaiff ei gasglu a'i gyhoeddi fel mater o drefn yng Nghymru ar hyn o bryd (fel y nodir ar dudalennau 50 i 52 o'n hadroddiad ac adroddiad WCPP), hoffem ragor o wybodaeth am y sail resymegol dros haeriad Llywodraeth Cymru nad yw hyn yn angenrheidiol / yn bosibl / yn ddefnyddiol wrth lywio ymateb polisi yng Nghymru.*

Fel y nodwyd yn ein hymateb i argymhelliad 6, mae Llywodraeth Cymru'n casglu amryw o ddata yn ymwneud â gofal cymdeithasol i blant. Yn ogystal â'r casgliadau data hyn, sy'n canolbwyntio ar y plant hynny sy'n cael gofal a chymorth, mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn casglu swm mawr o ddata ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol. Maen nhw'n casglu data yn flynyddol gan yr holl gyflogwyr gofal cymdeithasol, sy'n darparu data ar bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau preswyl i blant ac mewn gofal maeth, yn ogystal â gweithwyr cymdeithasol a all gefnogi plant.

Wrth ddatblygu polisïau a strategaethau, mae data yn amhrisiadwy i ganiatáu inni fesur canlyniadau a sicrhau ein bod ni'n gwneud gwahaniaeth. Bydd y Grŵp Cyflawni ar gyfer Trawsnewid Gwasanaethau Plant yn sefydlu is-grŵp sy'n cynnwys aelodau â chefndir ystadegol i adolygu'r data sy'n cael eu coladu ar hyn o bryd, y rhwystrau i goladu unrhyw ddata ac i ddod o hyd i unrhyw fylchau yn y casgliad data presennol. Bydd y Grŵp hefyd yn gweithio i gael gwell dealltwriaeth o ba ddata sydd eu hangen ac sy'n bosibl eu casglu fel rhan o asesiadau o anghenion y boblogaeth y gellir eu cynnwys yng ngwaith cynllunio awdurdodau lleol gan gynnwys fel rhan o'u strategaethau comisiynu lleoliadau, strategaethau ataliol a darpariaeth gwasanaethau.

I grynhoi, rydym yn cytuno gyda'r Pwyllgor ei bod yn bwysig cael data cadarn sy'n ein galluogi i fesur canlyniadau i'n helpu i lywio polisïau a strategaethau.

Yn gywir

Julie

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.